COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD IAU, 15 RHAGFYR 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | RM Granville |
| S J Griffiths | M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| T Thomas | G Walter | AJ Williams | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Claire Hamm | Arweinydd Tim Cadwraeth a Dilynio |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Helen Rodgers | Rheolwr Refeniw |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Delyth Webb | Rheolwr Grwp Adfywio Strategol |

31. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Heidi Bennett, Paul Davies a Graham Walter y byddai'n rhaid iddynt adael y cyfarfod yn gynnar.

Gwahoddedigion:
Y Cynghorydd Jane Gebbie, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar a'r Cynghorydd Neelo Farr, Aelod y Cabinet dros Adfywio.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Jon-Paul Blundell, Aelod y Cabinet dros Addysg y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

32. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

33. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, dyddiedig 30 Mehefin 2022, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

34. ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2 2022-23

Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg ar berfformiad ei Gyfarwyddiaeth, gan dynnu sylw at heriau yn y gweithlu, recriwtio a chadw, ansicrwydd ynghylch cyllidebau, costau uwch a chwyddiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Pryd byddai data perfformiad oedd wedi ei feincnodi ar gael, a data tueddiadau yn ymwneud â pherfformiad y flwyddyn flaenorol yn hytrach na'r targedau blynyddol a osodwyd.
- Y risg i'r gorfforaeth gyfan o ran y gweithlu ac, mewn perthynas â recriwtio, swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor ac mewn rhai cyfnodolion a chylchgronau arbenigol, gyda rhai hysbysebion ar gyfer swyddogaethau lluosog.
- A oedd awgrym gan Lywodraeth Cymru (LlC) ynghylch setliad terfynol y gyllideb ac a fyddai cynigion diwygiedig y gyllideb a'r cyfriflyfr ariannol llawn ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP).
- Gweithio gyda landlordiaid a rôl cynllunio ym mholisi'r Cyngor o adfer eiddo gwag ar gyfer ei ddefnyddio eto.
- Problem absenoldeb salwch oherwydd straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith a'r cymorth lles oedd ar gael i'r staff.
- Y targedau a'r data coll ynghylch Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac e-ddysgu.
- Adolygiad manwl o'r Strategaeth Ddigidol yn dilyn gwaith ynghylch gweithio hybrid a dyheadau a blaenoriaethau digidol.
- Yr anghysondeb rhwng y statws gwyrdd a briodolwyd i ymrwymiad WBO2.2.3 oedd yn ymwneud ag atal digartrefedd a phrinder llety addas yn y Fwrdeistref Sirol.

<u>Cyfarwyddiaeth y Cymunedau</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau drosolwg ar berfformiad ei Chyfarwyddiaeth, gan dynnu sylw at y tanwariant oedd yn cael ei yrru gan nifer fawr o swyddi gweigion, y camau oedd yn cael eu cymryd o ran recriwtio, y posibilrwydd o ddod â rhai gwasanaethau i ben oherwydd diffyg adnoddau, heriau gydag Atgyfeiriadau Aelodau a darparu cyd-destun o amgylch rhai o'r Dangosyddion Perfformiad a raddiwyd yn goch.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Ymatebolrwydd i Atgyfeiriadau Aelodau a diogelwch a dibynadwyedd atgyweiriadau dros dro i foeleri yn y gwasanaethau ystadau.
- Nifer y Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.
- Ffynonellau derbyniadau cyfalaf a'r siopau ailddefnyddio yn y Pîl a Maesteg.
- Mesurau i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch a briodolir i anhwylderau Cyhyrysgerbydol ar draws pob Cyfarwyddiaeth ac effaith salwch ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.
- Pa wasanaethau fydd angen dod i ben oherwydd pwysau ariannol, pa feysydd yn y Gyfarwyddiaeth oedd yn methu â chwrdd â thargedau perfformiad ac a oedd unrhyw arbedion eraill wedi eu nodi yn ystod y flwyddyn.
- Cynllun Gwres Caerau, cyllid a hyfywedd.

- Newidiadau yn y cytundeb a ffioedd am gael gwared ar wastraff gweddilliol yn y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni.

Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd drosolwg ar berfformiad ei Gyfarwyddiaeth, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd yr un ysgol yn un o gategorïau pryder Estyn, y gwelliannau sylweddol yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) wedi cael ei gymeradwyo gan LlC, y cyd-destun meysydd lle roedd perfformiad wedi rhagori ar y targedau, heriau staffio (yn enwedig ym maes arlwyo) a bod y tanwariant presennol yn debygol o gael ei ddihysbyddu gan bwysau cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd a bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Nifer y gwaharddiadau parhaol a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r rhain, y ffactorau sy'n cyfrannu a'r cymorth sydd ar gael.
- Staff arbenigol ychwanegol ac arfer gorau sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau diogelu ac uwchgyfeirio ymddygiad .
- Y duedd ar i lawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyfrifiad diweddar, y ddarpariaeth Gymraeg i wella targedau a'r CSGA uchelgeisiol ar gyfer ysgolion a theuluoedd.
- Digonolrwydd cyfleusterau ysgol ac amser ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim, diffyg apêl contractau arlwyo ysgolion oriau cyfyngedig, y posibilrwydd o gynlluniau peilot ar gyfer cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim Cynradd Cyffredinol gyda'r pwyslais ar degwch i bob disgybl a diweddariad ar uwchraddio cyfleusterau cegin.

Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles drosolwg ar berfformiad ei Chyfarwyddiaeth gan dynnu sylw at yr angen a'r galw cynyddol am wasanaethau a chefnogaeth statudol, pwysau'r gweithlu, yn enwedig yn y gofal cymdeithasol i blant (CSC) a gofal cartref i oedolion, y gwiriad gwelliant gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn y gofal cymdeithasol i blant, y meysydd pwysau allweddol, yn enwedig o ran darparu cymorth statudol a chynlluniau gofal a'r canlyniad rhagorol a'r ffocws ar wasanaethau atal a llesiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Y targedau o ran canran y rhai sy'n gadael gofal a gwblhaodd o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a Chynllun Peilot Incwm Sylfaenol LlC.
- Mesurau a chymorth i liniaru salwch a phwysau ar y gweithlu.
- Mae cynlluniau recriwtio i ostwng trothwy'r swyddi gwag ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well ag awdurdodau lleol eraill a lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.
- Nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd, gan liniaru'r angen am gymorth a'r posibilrwydd o newid i ddangosyddion cenedlaethol i ddangos y perfformiad cadarnhaol mewn ffordd fwy ystyrlon.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Er mwyn sicrhau bod amser y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) yn cael ei ddefnyddio er y budd mwyaf, y dylai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc graffu'n fanwl ar faterion yng nghylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny.

2. Bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, oedd yn ystyried gwaharddiadau sefydlog a pharhaol, i edrych a chanfod arfer gorau o ran rheoli ymddygiad disgyblion.

a gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ganlynol:

Cymunedau

3. Faint o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol gafodd eu cwblhau rhwng Ebrill a Medi 2022.

4. Gan gyfeirio at y Dangosydd Perfformiad DCO16.9 CP WBO3 ar dudalen 48 o becyn adroddiadau’r agenda, i beth mae'r £275,000 o dderbyniadau cyfalaf sy'n weddill yn perthyn.

5. Dadansoddiad y gyllideb o'r £9,000,000 sy'n weddill nad oedd wedi ei rwymo i gontractau.

Addysg a Chymorth i Deuluoedd

6. Diweddariad ar nifer a themâu gwaharddiadau sefydlog a pharhaol.

Diweddariad yn dilyn y cyfarfod rhwng Aelod y Cabinet dros Addysg a Gweinidog Llywodraeth Cymru i drafod yr oriau cyfyngedig anneniadol a gynigir mewn contractau arlwyo ysgolion ac a fyddai budd-daliadau person fyddai’n ceisio llenwi’r swydd yn dioddef neu’n cael eu colli.

35. CYFLWYNO CYNLLUN TALIAD COSTAU BYW

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad a’i ddiben oedd hysbysu’r Pwyllgor am y prosesau a gyflawnwyd a’r gwersi a ddysgwyd wrth weithredu’r Cynlluniau Costau Byw, a Chostau Byw yn ôl Disgresiwn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid a bu’r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Pa gymorth sydd ar gael i unigolion bregus sy'n derbyn taliadau o'r Cynllun.
- Cyfyngiadau systemau a meddalwedd a arweiniodd at anawsterau wrth weithredu'r Cynllun a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer gwasanaeth lefel uchel yn y dyfodol.

- Yr oedi a'r anghysondebau rhwng gwahanol awdurdodau lleol o ran effeithlonrwydd taliadau o'r Cynllun.
- Pa mor addas i'r pwrpas oedd y system ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, y defnydd a wneir ohoni mewn prosesau presennol megis gweinyddu taliadau'r Dreth Gyngor a Thanwydd Gaeaf a'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth bob cynllun.
- Lefel yr Atgyfeiriadau oddi wrth Aelodau oherwydd anhawster gyda thaliadau, y cyswllt gwe annilys mewn gohebiaeth ysgrifenedig i drigolion a diffyg cefnogaeth i staff llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol eraill i gynorthwyo pobl gydag ymholiadau.
- Nad Pen-y-bont ar Ogwr oedd y gorau na'r gwaethaf o ran gweinyddu'r Cynllun a bod 98% o'r dyraniad wedi cael ei dalu.
- Yr amserlen ar gyfer adolygu'r Strategaeth Ddigidol a'r mewnbwn gan gymunedau a phwysigrwydd cyfathrebu clir, syml a hawdd ei ddeall â'r cyhoedd.
- Maint y gwaith a wnaed a'r cynlluniau a weinyddwyd gan dîm cymharol fychan yn ystod y pandemig.
- Y dylai'r Aelodau fod wedi derbyn brîff manwl ynglŷn â'r anawsterau a brofwyd gyda'r Cynllun er mwyn eu galluogi i gynorthwyo a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am gael:

7. Diweddariad ynghylch pryd yr oedd adolygiad y Strategaeth Ddigidol yn debygol o ddechrau ac am iddi gael ei gosod ar Flaenraglen Waith COSC fel eitem cyn ei phenderfynu.

Pan fydd anawsterau mewn cyflwyno cynlluniau megis Cynllun Taliadau'r Costau Byw, bod yr Aelodau'n cael eu briffio er mwyn iddynt fedru rhaeadru'r wybodaeth i'r cyhoedd a chynorthwyo i reoli'r disgwyliadau.

36. AILDDATBLYGU NEUADD TREF MAESTEG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr adroddiad a'i ddiben oedd rhoi trosolwg i'r Pwyllgor ar gynnydd prosiect Neuadd y Dref Maesteg hyd yma.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau am y cyflwyniad a'r gwahoddiad i'r Aelodau ymweld â'r safle ac atgoffodd yr Aelodau, gan fod y prosiect yn mynd rhagddo, eu bod wedi eu gwahardd rhag trafod unrhyw agweddau masnachol sensitif neu gyfrinachol.

Bu'r Aelodau yn trafod y canlynol:

- Pryderon ynghylch y broses gan gynnwys, yr amserlen yn arwain at gyrraedd terfyn uchaf y contract, proses y Pwerau Dirprwyedig wrth ryddhau arian ychwanegol a swyddogaeth Cadeiryddion Craffu.

- Y dylid dysgu gwersi oddi wrth brosiect Neuadd y Dref Maesteg ac o ran rhannu gwybodaeth ynghylch defnyddio Pwerau Dirprwyedig i bob Aelod, yn enwedig Cadeiryddion Craffu.
- Y rhesymau pam na chafodd y penderfyniad ei alw i mewn a pham yr oedd y mater yn cael ei archwilio yn y cyfarfod heddiw.
- Y cyfyngiadau ar newidiadau union yr un fath ar y safle a'r costau oedd yn gysylltiedig â hwy.
- Digonolrwydd yr arian a fuddsoddwyd yn yr arolygon a gynhaliwyd cyn dechrau, pa mor fanwl oedd yr arolygon ac a oedd y problemau a nodwyd ar y gofrestr risg.
- Nad oedd yn hysbys bod pen uchaf gwerth y contract yn cael ei gyrraedd hyd nes y derbyniwyd y costau a bod digwyddiadau iawndal pellach (nas rhagwelwyd ar yr adeg y pennwyd y gwaith) yn llai tebygol o ailddigwydd gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith dadadeiladu ac atgyweirio wedi ei gwblhau.
- Rhinweddau ac anfanteision blaenlwytho llafur ac adnoddau er mwyn cwblhau'r prosiect cyn gynted â phosibl.
- Y gwaith helaeth gyda Mace, Knox a Wells a Cadw.
- I ba raddau yr oedd y prosiect wedi cael ei fonitro gan y Cabinet a chyfranogiad yr Aelodau perthnasol o'r Cabinet.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd i'r gwahoddedigion am eu presenoldeb a dywedodd eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am gael:

8. Ymateb ysgrifenedig ynghylch rhaglen adfer i gynnwys:

    a. a oes modd blaenlwytho'r prosiect gyda gweithwyr ychwanegol i gwblhau'r prosiect mewn cyfnod byrrach; ac
    b. os felly, faint fyddai'n ei gostio; neu
    c. a fyddai'n well cadw costau mor isel â phosibl; a'r
    d. amser cyflawni/oedi yn erbyn costau blaenlwytho.

9. Sicrwydd na fydd unrhyw oedi na gwariant pellach ar y prosiect.

Ar ôl cwblhau'r prosiect, bod adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd yn cael ei roi ar y Flaenraglen Waith ar gyfer COSC.

37. ADRODDIAD INTERIM Y PANEL YMCHWIL A GWERTHUSO'R GYLLIDEB

Cyflwynodd Cadeirydd Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP) yr adroddiad a'i ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am drafodaethau, canfyddiadau ac argymhellion BREP hyd yma.

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r argymhellion a wnaed gan BREP a'u cyflwyniad i'r Cabinet ac Uwch Swyddogion i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn dilyn derbyn setliad llywodraeth leol dros dro gan Lywodraeth Cymru.

38. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r Flaenraglen Waith (FWP) i'r Pwyllgor yn Atodiad A i'w thrafod a'i hystyried, gofynnodd am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Pwyllgor ei chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion yr oedd arnynt eisiau iddynt fod yn bresennol, gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried yn y rhaglen gan ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a chyflwyno'r blaenraglenni gwaith ar gyfer Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 1, 2 a 3 fel Atodiadau B, C a D ar gyfer cydgysylltu a goruchwylio'r Flaenraglen Waith yn gyffredinol.

Dywedodd hefyd fod y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ynghlwm fel Atodiad E i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol a bod y Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion ar gyfer pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc hefyd ynghlwm fel Atodiadau F, G a H.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at y nifer fawr o adroddiadau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod dilynol ar 31 Ionawr 2023 ond tynnodd sylw at y ffaith eu bod i gyd yn rhoi cyd-destun i'r Aelodau ar gyfer pennu cyllideb eleni ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch hyd cyfarfodydd y Pwyllgor a buont yn trafod nifer yr adroddiadau statudol i'w hystyried ac y byddai cyfarfodydd weithiau yn hirach, o reidrwydd, i ddarparu ar gyfer y rhain.

Ar ôl ystyried Diweddariad y Flaenraglen Waith, gofynnodd y Pwyllgor am i'r Strategaeth Ddigidol gael ei hychwanegu at y Flaenraglen Waith.

Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad oedd i ddod ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gofynnodd am wahodd cynrychiolwyr o Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr a rhai o'r contractwyr i fod yn bresennol ar gyfer craffu ar yr adroddiad.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3, a gellid edrych ar hyn eto yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried ac wedi cymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r ceisiadau uchod, yn nodi'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, yn dilyn eu hystyried yn eu Cyfarfodydd Pwyllgor diweddaraf yn Atodiad B, C a D, ac yn nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiadau E, F, G a H.

39. EITEMAU BRYS

Dim.